CYFRES C8

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Josua 1: 1-9

Mae'r stori yma'n sôn am:
Gwybod bod Duw gyda ni.

Stori 1 Josua'n dod yn arweinydd newydd

Roedd Moses wedi bod yn arwain pobl Dduw, Israel, ond nawr roedd e wedi marw. Dywedodd Duw wrth Josua mai fe fyddai'n arwain y bobl o hyn ymlaen. Roedd Josua i fod i arwain Israel o'r anialwch i wlad Canaan, y wlad roedd Duw wedi addo ei rhoi iddynt.



Beth oedd enw'r arweinydd newydd?

J __ __ __ __

Beth oedd enw gwlad yr addewid?

C __ __ __ __ __

Roedd Josua wedi bod yn helpu Moses ers blynyddoedd ond roedd e dipyn bach yn ofnus am y dyfodol.
Cafodd Josua addewid ardderchog gan Dduw.

Lliwiwch yr addewid.

"Wna i ddim o dy adael."

Pan fyddwn ni'n trystio Iesu ac yn gofyn iddo ddod i'n bywyd ni, mae'n addo bod gyda ni a pheidio â'n gadael ni! Dyna addewid dda!

Enw _____

DARLLENWCH
Josua 2: 1-24

Mae'r stori yma'n sôn am:
Credu bod Duw yn gryf.

Stori 2 Josua a'r wlad newydd

Anfonodd Josua ddau sbïwr i Ganaan i weld sut wlad oedd hi. Aethon nhw i Jericho ac aros yng nghartref Rahab. Roedd waliau o gwmpas Jericho i gyd ac roedd Rahab yn byw mewn tŷ ar y wal.



Clywodd brenin Jericho fod sbiwyr wedi dod i Jericho ac anfonodd ddynion i dŷ Rahab i chwilio amdanyn nhw.

Rhowch y geiriau hyn yn y bylchau cywir:

Rahab brenin sbiwyr

Anfonodd Josua ddau

s __ __ __ __ i Jericho.

Arhoson nhw yng nghartref

R __ __ __ __.

Anfonodd b __ __ __ __ __ Jericho ddynion i gartref Rahab.

Aeth Rahab â'r dynion i ben y to i guddio. Dywedodd hi wrth ddynion y brenin fod y sbiwyr wedi mynd. Yna, helpodd hi'r sbiwyr i ddianc trwy ddringo i lawr rhaff o'i ffenest hi.

Dywedodd Rahab y byddai'n helpu'r sbiwyr am ei bod yn credu mai eu Duw nhw oedd

"Duw yn y nefoedd uchod."

Lliwiwch y geiriau.

Addawodd y sbiwyr achub bywydau Rahab a'i theulu gan fod Rahab wedi'u helpu nhw a'i bod yn credu yn Nuw.

Yr un Duw sydd gennym ni heddiw ac mae'n un da iawn. Ydych chi'n credu ynddo?

Enw _____

DARLLENWCH
Josua 3: 1-17

Mae'r stori yma'n sôn am:
Nerth Duw.

Stori 3 Josua a'r Iorddonen

Roedd gan Josua broblem. Roedd rhaid iddo fe a'r Israeliaid groesi afon fawr Iorddonen cyn cyrraedd gwlad Canaan. Roedd llif mawr yn yr afon a doedd dim pont i'w chroesi. Gwnaeth Duw eu hachub nhw.



Roedden nhw i fod i gario bocs arbennig o'r enw Arch y Cyfamod. Dywedodd Duw wrth Josua am ddweud wrth yr offeiriaid oedd yn cario'r Arch i fynd i sefyll yn yr afon. Pan gyrhaeddon nhw'r afon, stopiodd yr afon lifo ac roedd pobl Israel yn gallu croesi i'r ochr draw ar dir sych. Dyna wyrth i chi!

Rhowch (✓) neu (✗) i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir.

Roedd rhaid i Josua a'r Israeliaid groesi afon Nîl. ❑

Roedd yr offeiriaid i fod i sefyll yn yr afon. ❑

Gwnaeth Duw wyrth. ❑

Unwaith eto, dangosodd Duw ei fod yn gryf iawn. Os byddwn ni'n trystio Iesu i fod yn Waredwr i ni, bydd yn dangos bod ganddo nerth i'n helpu ni yn ein bywyd bob dydd.

Enw

DARLLENWCH
Josua 6: 1-25

Mae'r stori yma'n sôn am:
Y bobl yn ennill trwy nerth Duw

Stori 4 Josua a Jericho

Daeth yr amser i ymosod ar Jericho. Roedd y fyddin yn barod ac roedd pobl Jericho yn ofnus. Roedd gan Dduw gynllun arbennig i ddangos pa mor gryf oedd e.

Roedd y bobl i fod i fartsho o gwmpas Jericho un waith bob dydd am chwe diwrnod. Roedd saith offeiriad i fod i ganu utgyrn ond roedd y bobl i fod i gadw'n dawel.

Ar y seithfed diwrnod roedd rhaid iddyn nhw fartsho o gwmpas y ddinas saith gwaith ac roedd y bobl i fod i weiddi'n uchel!

Ysgrifennwch y rhifau cywir.

Roedd y bobl i fod i fartsho o gwmpas Jericho un waith bob dydd am __ _ _ diwrnod.

Roedd _ _ _ __ offeiriad yn mynd o'u blaen.

Ar y diwrnod olaf roedd rhaid iddyn nhw fartsho o gwmpas y ddinas _ _ _ __ gwaith.



Pan waeddodd y bobl, syrthiodd waliau Jericho! Rhuthrodd y fyddin i mewn i Jericho a chafodd pawb eu dinistrio ar wahân i Rahab a'i theulu. Trefnodd Duw i fyddin Josua ennill brwydr dros eu gelynion!

Os ydyn ni'n credu yn Iesu, mae'n ein helpu ni i guro ein gelyn ni, y diafol. Mae'n ein helpu i wneud beth sy'n dda ac yn gywir hefyd.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120